mencap

Y Comisiwn Etholiadol

hawdd ei ddarllen

Gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr

Gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr

Dogfen sydd ar gael am ddim yw Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr a gallwch ei defnyddio fel ID ffotograffig er mwyn pleidleisio mewn etholiad.

Mae angen i chi gofrestru i bleidleisio cyn gwneud cais am **Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr.**

Os oes angen **Tystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr** arnoch chi i bleidleisio yn yr etholiadau mae'n syniad da i chi wneud cais mor fuan â phosib.

Gallwch chi wneud cais am **Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr** ar-lein ar wefan y Llywodraeth:

www.gov.uk/ceisio-am-lun-id-tystysgrif-awdurdod-pleidleiswyr

neu drwy lenwi ffurflen gais bapur.

Os oes angen help arnoch chi i wneud cais am **Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr**, neu os ydych chi eisiau ffurflen gais bapur cysylltwch â'ch cyngor lleol.

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**

Canllaw Hawdd ei Ddarllen ar gyfer Gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr 2024.003

Gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr

Ewch i wefan y Comisiwn Etholiadol i weld manylion eich cyngor lleol:

https://www.electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau

neu ffoniwch ein llinell gymorth: **0800 328 0280.**

Pan fyddwch chi'n gwneud cais am **Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr**, bydd angen i chi wybod y canlynol:

- eich enw
- eich cyfeiriad
- eich dyddiad geni

Hefyd, mae'n syniad da i chi wybod beth yw eich **Rhif Yswiriant Gwladol** pan fyddwch chi'n gwneud cais am **Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr**.

Gallwch chi wneud cais am **Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr** os nad ydych yn gwybod eich Rhif Yswiriant Gwladol.

Os nad ydych chi'n gwybod beth yw eich Rhif Yswiriant Gwladol, bydd eich cyngor lleol yn cysylltu â chi i ofyn am ffordd arall o brofi pwy ydych chi.

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**

Gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr



Pan fyddwch chi'n gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr, bydd angen i chi anfon llun o'ch hunan gyda'r ffurflen.

Mae yna reolau am y llun y gallwch chi ei anfon.

Mae'r rheolau yn debyg i'r rhai ar gyfer llun pasbort.

Os nad oes gennych chi lun sy'n cadw at y rheolau, gallwch ofyn i'r cyngor lleol dynnu eich llun i chi.

I ddysgu mwy am y rheolau ar gyfer y llun, ewch i **wefan y Comisiwn Etholiadol:**

www.electoralcommission.org.uk/cy/pleidleisio-ac-etholiadau/id-pleidleisiwr

neu ffoniwch ein llinell gymorth: **0800 328 0280.**

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**

Y
Comisiwn
Etholiadol

Manylion cysylltu
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
rhif ffôn: **0207 696 6009**